




Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

Llyfrgelloedd
Libraries

PRIFYSGOL ABERTAW LLYFRGELLOEDD AC ARCHIFAU

Ysbrydoliaeth Dysgu
a Galluogi Ymchwil



AM EIN *Llyfrgell Uoedd*

Mae Llyfrgelloedd Prifysgol Abertawe yn darparu gwasanaethau gwybodaeth o ansawdd uchel ar gyfer yr holl fyfyrwyr a staff, yn ogystal â hyn, maent yn datblygu'r gwasanaethau hyn yn barhaus er mwyn cefnogi'r Brifysgol.

Mae gan y llyfrgell gasgliad eang o lyfrau wedi eu hargraffu a rhai electronig, mae ganddynt gyfnodolion a chronfeydd data ar-lein yn ogystal ag adnoddau dysgu eraill. Y rhain yw'r pum llyfrgell; Llyfrgell Parc Singleton, Llyfrgell y Bae, Llyfrgell Glowyr De Cymru, Llyfrgell Parc Dewi Sant a Llyfrgell Branwen.

Mae Llyfrgelloedd Parc Singleton a Champws y Bae ar agor 24 awr y dydd drwy gydol y flwyddyn, ac eithrio Dydd Nadolig (25 Rhagfyr), Gŵyl San Steffan (26 Rhagfyr) a Dydd Calan (1 Ionawr).



HANES

EIN LLYFRGELLOEDD

Yn 2017 dathlwyd bodolaeth yr adeilad gwreiddiol ers 80 o flynyddoedd.

O ganlyniad i nifer cynyddol o fyfyrwyr ac angen am fwy o le, adeiladwyd ac agorwyd y llyfrgell. Agorwyd yn swyddogol gan Ddug Caint ym mis Hydref, 1937. Mae'r adeilad yn cael ei adnabod yn lleol fel adeilad 1937



CAERFYRDDIN

CWM DULAI

ABERTAW

CAERDYDD



LLYFRGELL PARC DEWI SANT
Mae Llyfrgell Dewi Sant wedi ei lleoli ar Gampws Parc Dewi Sant, Caerfyrddin. Mae'r llyfrgell yn cefnogi myfyrwyr Gwyddorau Iechyd sy'n cael eu dysgu yng Nghaerfyrddin.

Mae'r Llyfrgell ar gyfer defnydd myfyrwyr gwyddorau iechyd Prifysgol Abertawe yn bennaf ond gall unrhyw fyfyrwr neu aelod o staff cofrestredig ddefnyddio'r cyfleusterau a benthg eitemau o'r Llyfrgell.



LLYFRGELL GLOWYR DE CYMRU
Sefydlwyd yn 1973, mae Llyfrgell Glowyr De Cymru yn cefnogi gweithgareddau dysgu ac ymchwil y Brifysgol ac yn hybu cysylltiadau gyda'r gymuned ehangach.

Mae Llyfrgell y Glowyr De Cymru yn cynnwys y casgliadau llyfrau a phamffledi (sy'n cynnwys y llyfrgelloedd o dros 60 sefydliadau a neuaddau lles ar draws y maes glo), hanes llafar, fideos, posteri a baneri. Mae'r cofnodion llawysgrifau a'r lluniau ar gael yn Archifau Richard Burton.



LLYFRGELL PARC SINGLETON
Mae Llyfrgell Parc Singleton wedi ei leoli ar Gampws Parc Singleton sy'n 47 erw, taflad carreg oddi wrth y traeth ble gellir cerdded yno ac mae'n agos i ganol y ddinas.

Ers 2010, mae dros £72 miliwn wedi cael ei fuddsoddi i raglen barhaus i wneud y mwyaf o botensial y campws.



LLYFRGELL Y BAE
Mae gan Gampws y Bae newydd Prifysgol Abertawe'r rhagoriaeth o fod yn un o'r prifysgolion byd-eang prin sydd â mynediad uniongyrchol at y traeth.

Mae'r campws yn darparu llety myfyrwyr, cyfleusterau academaidd ac ardal ymchwil gan gynnwys Llyfrgell o'r ansawdd uchaf a agorodd yn 2015.



LLYFRGELL BANWEN
Mae Llyfrgell Branwen yn gangen o Lyfrgell Glowyr De Cymru ac mae wedi'i leoli yng Ngweithdy DOVE, Branwen, 25 milltir o Abertawe yng Nghwm Dulais.

Agorwyd yn 1989 i gefnogi Prifysgol Cymuned arloesol y Cymoedd. Ehangwyd ac adnewyddwyd y llyfrgell yn 1993 a 2002.



**DOD O
HYD I NI**
LLE RYDYN NI WEDI EIN LLEOLI

STAFF Y LLYFRGELL: YMA I'CH HELPU CHI I *Lwyddo*

Mae Llyfrgelloedd ac Archifau Prifysgol Abertawe'n falch o fod wedi derbyn y Wobr Ragoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid, ynghyd â chydweithwyr ar draws ein cyfarwyddiaeth.

Ein Tîm Gwasanaeth Cwsmeriaid yw eich pwynt cyswllt cyntaf yn y Llyfrgell ac mae'r fîm bob amser yn awyddus i'ch helpu gyda phopeth o gwestiynau ynghylch TG i ddod o hyd i lyfrau ac adnoddau yn yr adeilad neu ar-lein.

Mae ein Llyfrgellwyr Pwnc arbenigol a phrofiadol yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi myfyrwyr, gan gynnwys apwyntiadau un i un, cyngor drwy sgwrs fyw ac addysgu sy'n benodol i bynciau. Maent hefyd yn cefnogi academyddion i ymgymryd ag ymchwil, addysgu, llythrennedd gwybodaeth, sgiliau ymchwilio a datblygu casgliadau.

Mae ein fîm Casgliadau'n gweithio'n ddi-baid i alluogi darganfyddiad a mynediad at y cynnwys y mae ei angen arnoch. Mae'r fîm yn cynnal ac yn datblygu ein casgliadau ar-lein ac yn ffisegol, ynghyd â'ch cysylltu â chynnwys y tu hwnt i'r rhain i gefnogi eich dysgu a'ch ymchwil.

Mae ein Llyfrgellwyr Ymchwil yn darparu nifer o adnoddau a gwasanaethau i helpu ymchwilwyr, megis Open Access, rheoli data Cyhoeddi ac Ymchwil.

Mae ein holl dimau'n gweithio gyda'i gilydd a chyda thimau ar draws y Brifysgol i ddarparu profiad myfyrwyr arobryn a sicrhau eich bod yn manteisio i'r eithaf ar eich llyfrgelloedd.



Ardaloedd LLYFRGELL

Mae ein llyfrgelloedd yn cynnwys dros 1,500 o ardaloedd astudio. Mae'r rhain wedi cael eu rhannu i wahanol barthau, megis distaw, tawel neu ardaloedd astudio grŵp.

Mae ardaloedd astudio ar gael 24 awr y dydd, 362 diwrnod y flwyddyn. Mae llawer o ardaloedd astudio yn cynnwys offer gyda CP gyda rhwydweithio, ac mae ardaloedd astudio eraill yn cynnwys mannau gwefryddu ar gyfer dyfeisiau personol.




CANOLFAN

Llwyddiant Academaidd

Eich cefnogi chi ar eich taith academaidd

Mae'r Ganolfan Llwyddiant Academaidd yma i roi cefnogaeth i chi o ran datblygu eich sgiliau astudio academaidd er mwyn eich cynorthwyo i gyflawni eich nod. Gallwch gynyddu eich potensial i'r eithaf a datblygu eich hyder trwy ystod o gyrsiau, gweithdai a thiwtorialau untro. Mae pob un o'n staff yn gwbl gymwys ac mae ganddynt flynyddoedd o brofiad o roi cyngor a chymorth cyfeillgar a phroffesiynol.



SUT GALL Y GANOLFAN LLWYDDIANT ACADEMAIDD fod o fudd i chi?

- Gwella eich sgiliau ysgrifennu
- Meithrin eich gwybodaeth am ystadegau
- Rheoli eich amser yn well
- Cryfhau eich sgiliau cyfathrebu
- Adnewyddu eich sgiliau mathemateg
- Datblygu eich gallu i feddwl yn feirniadol
- Gwella eich sgiliau digidol
- Dysgu sut i osgoi llên-ladrad

Mae pob un o'n cyrsiau am ddim a gallwch fynychu cynifer ag y dymunwch yn ystod eich amser yn y Brifysgol. Cewch y manylion llawn am ein holl ddosbarthiadau ar MyUni. Os oes gennych chi Anhawster Dysgu Penodol (SpLD), anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu gyflwr meddygol, mae gan y Ganolfan Llwyddiant Academaidd Diwtoriaid Arbenigol i gefnogi eich addysg.

CASGLIADAU

Ymchwil

Mae'r Casgliadau Ymchwil unigryw a hynod amrywiol yn cefnogi gweithgareddau dysgu, addysgu ac ymchwil y Brifysgol a'r gymuned ehangach.

Mae'r casgliadau'n cynnwys deunydd a luniwyd yn y Brifysgol sy'n cofnodi hanes sefydliadol, yn ogystal â hanes diwydiannol, cymdeithasol, diwylliannol, gwleidyddol ac addysgol Cymru a thu hwnt.



Archifau

RICHARD BURTON

Archifau Richard Burton yw cof corfforaethol ac ystorfa archifau Prifysgol Abertawe ac maent yn dal deunydd o arwyddocâd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r Archifau'n dethol ac yn diogelu'r holl gofnodion o werth hanesyddol a grëwyd neu a ddaeth i feddiant y Brifysgol ac maent yn gwneud yn siŵr bod y cofnodion hyn yn hygyrch i bawb.

Trwy eu daliadau ac arbenigedd y staff, mae'r Archifau'n cefnogi'n weithredol genhadaeth y Brifysgol i ddarparu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil, i ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr gydag addysgu o'r ansawdd uchaf, ac i gyfoethogi bywyd cymunedol a diwylliannol Cymru a thu hwnt.

EHANGACH GWASANAETHAU

Mae'r Llyfrgell yn cefnogi'r Brifysgol wrth i'r Brifysgol sylweddoli ar botensial yr holl fyfyrwyr a staff beth bynnag yw eu nodwedd (oed, rhywedd, hil, ailgyfeiriad rhywedd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, priod neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a ffydd).

Mae Canolfan Trawsgrifio Prifysgol Abertawe yn wasanaeth unigryw sy'n darparu adnoddau dysgu gwahanol, ble gellir cael mynediad atynt, megis braille, sain, print mawr, testun electronig a diagramau cyffyrddol ar gyfer myfyrwyr anabl ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn gweithio tuag at ofynion pob myfyriwr unigol yn unol ag adrannau academiaidd a sefydliadau megis RNIB er mwyn darparu'r amgylchedd ddysgu gorau posib i'n myfyrwyr.

Mae Canolfan yr Aifft yn amgueddfa fach sydd wedi ennill gwobrau, sy'n cynnwys hynafiaethau o'r Aifft, ac sy'n gwasanaethu'r cyhoedd a'r Brifysgol. Yn ogystal â gwrthrychau o amser Tutankhamun a chynt, mae gennym lawer o weithgareddau hwyllog. Er enghraifft, gallwch ymarfer eich sgiliau mymieiddio, neu chwarae gemau Eifftaidd hynafol.



SUT I GYSYLLTU Â NI

 customerservice@swansea.ac.uk

 01792 295500

 Prifysgol Abertawe
Campws Parc Singleton
Llyfrgell Parc Singleton
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP



Prifysgol
Abertawe
Swansea
University

Llyfrgelloedd
Libraries